

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a P Gareth Williams
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Mai 2022 0300 200 6565
Amser: 13.30 SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

2 Sesiwn dystiolaeth gyda Chyngor Cyfraith Cymru – materion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru

(13.30 – 14.30)

(Tudalennau 1 – 13)

Yr Arglwydd Lloyd-Jones, Llywydd Cyngor Cyfraith Cymru

Yr Athro Emyr Lewis, Is-lywydd Cyngor Cyfraith Cymru

Dr Nerys Llewelyn Jones, Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cyngor Cyfraith
Cymru

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 1 – Papur briffio

Egwyl

(14.30 – 14.40)

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 – 14.45)

(Tudalennau 14 – 15)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 2 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol



3.1 SL(6)197 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022

3.2 SL(6)199 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
(14.45 – 14.50)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

4.1 SL(6)190 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022

(Tudalennau 16 – 18)

[Gorchymyn](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 3 – Adroddiad drafft

5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(14.50 – 14.55)

5.1 SL(6)175 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022

(Tudalennau 19 – 21)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 4 – Adroddiad

LJC(6)-13-22 – Papur 5 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5.2 SL(6)178 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

(Tudalennau 22 – 25)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 6 – Adroddiad

LJC(6)-13-22 – Papur 7 – Ymateb Llywodraeth Cymru

6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.55 – 15.05)

6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022

(Tudalennau 26 – 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Ebrill 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Ebrill 2022

6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoliad Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

(Tudalennau 30 – 31)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Ebrill 2022

6.3 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022

(Tudalennau 32 – 35)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol,
3 Mai 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 12 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a
Llywodraeth Leol, 27 Ebrill 2022

6.4 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid

Hinsawdd: Rheoliadau Cyflyrau Ffytioiechydol (Diwygio) (Rhif 2) 2022

(Tudalennau 36 – 41)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 13 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd,
4 Mai 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 14 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog
Newid Hinsawdd, 29 Ebrill 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 15 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd,
25 Ebrill 2022

7 Papurau i'w nodi

(15.05 – 15.15)

7.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Chweched Protocol i'r Confensiwn ar Adeiladu a Gweithredu Adweithydd Fflwcs Niwtron Uchel Iawn (y DU–Ffrainc–yr Almaen)

(Tudalennau 42 – 43)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 16 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Ebrill 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 17 – Llythyr at y Prif Weinidog, 23 Mawrth 2022

7.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar 'Datrysiadau deddfwriaethol cyffredin:
canllaw i ymgodymu â materion polisi cylchol mewn deddfwriaeth'**

(Tudalennau 44 – 155)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-08-22 – Papur 18 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad, 26 Ebrill 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 19 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 25 Mawrth 2022

7.3 Gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip: Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)

(Tudalennau 156 – 164)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 20 – Llythyr gan Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, 25 Ebrill 2022

7.4 Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Y wybodaeth ddiweddaraf am fesurau rheoli ffiniau

(Tudalen 165)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 21 – Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 28 Ebrill 2022

7.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Diweddariad ar dreialu trefniadau pleidleisio hyblyg

(Tudalennau 166 – 170)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 22 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 3 Mai 2022

LJC(6)-13-22 – Papur 23 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Ebrill 2022

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.15)

9 Sesiwn dystiolaeth gyda Chyngor Cyfraith Cymru – Trafod y dystiolaeth

(15.15 – 15.30)

10 Adroddiad Monitro

(15.30 – 15.40)

(Tudalennau 171 – 184)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 24 – Adroddiad monitro drafft

11 Cyfraith yr UE a ddargedwir

(15.40 – 16.00)

(Tudalennau 185 – 230)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 25 – Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-13-22 – Papur 26 – Papur gan yr Athro Jo Hunt, Prifysgol Caerdydd:
Rheoli gwahaniaeth rheoleiddiol rhwng Cymru a gweddill y DU ar ôl Brexit
[Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-22 – Papur 27 – Papur gan yr Athro Catherine Barnard, Prifysgol
Caergrawnt: Sicrhau triniaeth gyfartal yn y Cytundeb Masnach a
Chydweithredu: canllaw rhagarweiniol [Saesneg yn unig]

12 Blaenraglen waith

(16.00 – 16.20)

(I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-13-22 – Papur 28 – Nodyn briffio

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 09 Mai 2022

SL(6)197 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Ddeddf"). Mae'r Deddf yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Diben y Rheoliadau Diwygio 2022 yw gohirio, tan 31 Hydref 2022, y gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiad blynyddol mewn perthynas â phob un o flynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20, 2020-21 a 2021-22, pan fyddant wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016, i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i Arolygiaeth Gofal Cymru). Maent hefyd yn lleihau'r cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau blynyddol 2021-22, yn unol â'r gofynion ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae gwasanaethau a reoleiddir yn cynnwys cartref gofal, llety diogel, canolfan breswyl i deuluoedd, mabwysiadu, maethu, lleoli oedolion, eiriolaeth a reoleiddir a gwasanaeth cymorth cartref.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Fe'u gwnaed ar: 25 Ebrill 2022

Fe'u gosodwyd ar: 27 Ebrill 2022

Yn dod i rym ar: 20 Mai 2022



Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

09 Mai 2022

SL(6)199 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (OS 2015/1484) "Rheoliadau 2015", a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018/191) ("Rheoliadau 2018").

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system o gymorth ariannol i fyfirwyr sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU, a myfirwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddibenion adran 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n nodi bod rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad bennu terfynau ffioedd (neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfynau ffioedd) mewn perthynas â chysiau cymhwysol bob blwyddyn academiaidd. Terfynau ffioedd yw'r uchafswm y bydd rhaid i berson cymhwysol ei dalu i sefydliad am ymgymryd â chwrs cymhwysol.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2015 "i adlewyrchu'r polisi cywir bod Dinasyddion Gwyddelig yn bersonau cynhwysol o dan Reoliadau 2015 os ydynt yn ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd".

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfirwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2018 i gywiro mater a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad dyddiedig 14 Chwefror 2022. Mae Atodlen 4 o Reoliadau 2018 yn cyfeirio at "fyfyrwr cymwys" ond dylai gyfeirio at "fyfyrwr ôl-raddedig cymwys".

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Fe'u gwnaed ar: 25 Ebrill 2022



Fe'u gosodwyd ar: 27 Ebrill 2022

Yn dod i rym ar: 25 Mai 2022



Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 4.1

SL(6)190 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 ("Gorchymyn 2022") yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a'r telerau a'r amodau cyflogaeth eraill i weithwyr amaethyddol.

Mae Gorchymyn 2022 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020 ("Gorchymyn 2020") gyda newidiadau sy'n cynnwys strwythur graddio newidd, a'r cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn

Gwnaed y Gorchymyn ar 31 Mawrth 2022 a daw i rym ar 22 Ebrill 2022. Fodd bynnag, mae darpariaethau'r Gorchymyn yn cymhwyso'n ôl-weithredol o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Nid yw'n ymddangos bod Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn rhoi awdurdod penodol ar gyfer hyn. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

The provisions within the Order are intended to apply retrospectively to 1 April 2021. The Panel were of the view this would recompense those agricultural workers who had expected an increase in their hourly wage from 1 April 2021, as was proposed in the Panel's targeted consultation of autumn 2020.

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw mai diben cymwhyso ôl-weithredol o ddarpariaethau'r Gorchymyn yw cynyddu cyflogau gweithwyr a oedd wedi disgwyl cynnydd ym mis Ebrill 2021. Fodd bynnag, nid oes unrhyw esboniad yn y Memorandwm Esboniadol am yr oedi rhwng y Panel yn cyflwyno Gorchymyn drafft diwygiedig ar 21 Rhagfyr 2021, a gwneud a gosod y Gorchymyn (ar 31 Mawrth ac 1 Ebrill 2022 yn y drefn honno). Cynhaliwyd ail



ymgyngoriad cyhoeddus cyn cyflwyno'r drafft diwygiedig, a hynny ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Aeth rhyw dri mis heibio rhwng cyflwyno'r drafft diwygiedig a gwneud y Gorchymyn.

Mewn perthynas ag ôl-gymhwysu'r Gorchymyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

The intention of the Panel was to have the new Order in force on 1 April 2021, to coincide with increases to the National Living Wage (NLW) and National Minimum Wage (NMW) and avoid a transitional period during which the NLW/NMW would override the Agricultural Minimum Wage (AMW) levels. However, the scale and nature of the changes necessitated referral back to the Panel for clarification of a number of policy and legal matters. In response, the Panel made changes to their draft proposals. Some of these changes were sufficiently different so as to require a second public consultation. This took place between 20 October and 19 November 2021. The Panel subsequently submitted a revised draft Order on 21 December 2021 and requested that the Order be made with retrospective effect to recompense those agricultural workers who had expected an increase in their hourly wage from 1 April 2021, as was proposed in the Panel's targeted consultation of autumn 2020.

Following careful consideration, Welsh Ministers approved the draft Order and request for retrospective effect. At present, agricultural workers' wages in Wales are subject to the minimum rates specified by the Agricultural Wages (Wales) Order 2020, except for minimum rates in the Order which fall below the NMW and NLW.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae adran 3 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn ymwneud â gorchymynion cyflogau amaethyddol. Mae adran 3(5) yn darparu "ni chaniateir pennu cyfradd tâl isaf mewn gorchymyn o dan yr adran hon sy'n llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol". Gwnaed y Gorchymyn ar 31 Mawrth 2022, daeth i rym ar 22 Ebrill 2022, ond cafodd effaith ar 1 Ebrill 2021. Ar 1 Ebrill 2022, cafodd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol eu cynyddu. Mae'r cyfraddau tâl isaf a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn mewn rhai achosion yn is na'r cyfraddau isafswm cyflog cenedlaethol o 1 Ebrill 2022 ymlaen, er eu bod yn gyfartal â'r cyfraddau isafswm cyflog cenedlaethol sy'n gymwys ar 1 Ebrill 2021, neu'n uwch na hwy. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros gredu y cydymffurfiwyd ag adran 3(5) o'r Ddeddf, gan fod y Gorchymyn yn pennu cyfraddau tâl isaf sy'n llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol o 1 Ebrill 2022. Byddai gwybodaeth bellach yn ddefnyddiol er mwyn deall safbwynt Llywodraeth Cymru.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno strwythur graddio newydd ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Mae'r cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol, yn ôl gradd, wedi'u nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn. Mae'r rhain yn cael effaith o 1 Ebrill 2021. Mae'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi cynyddu, gydag effaith o 1 Ebrill 2022. Mae'r codiadau hyn mewn rhai achosion yn uwch na'r cyfraddau isaf y mae'r Gorchymyn yn darparu ar eu cyfer. Mewn rhai achosion, canlyniad hyn yw dileu neu leihau effaith y cyfraddau tâl graddedig, sy'n gwobrwyo gweithwyr mwy profiadol neu gymwys. Er enghraifft, yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn, byddai gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A4 23 oed neu'n hŷn yn cael £8.91 yr awr. Fodd bynnag, o 1 Ebrill 2022, byddai'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi'r swm hwn i £9.50 yr awr. Byddai gweithiwr amaethyddol Gradd B4 23+ oed yn cael lleiafswm o £9.19, eto wedi'i godi i £9.50 yr awr. Byddai gweithiwr Amaethyddol Gradd C 23+ oed hefyd cael y gyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol o £9.50, gan fod ei dâl isaf Atodlen 1 o £9.47 hefyd yn codi. Fel y cyfryw, nid oes gwobr ariannol ar hyn o bryd i weithiwr yn y categori oedran hwn o fod yn Radd C4, yn hytrach nad bod yn weithiwr A4. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhwystr i ddilyniant yn y tymor byr. Mae'n bosibl y bydd rhai gweithwyr amaethyddol ar gyfradd uwch o dâl os cânt eu hamddiffyn gan y darpariaethau diogelu tâl yn erthygl 15, yn dilyn cyflwyno'r strwythur graddio newydd. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro pryd y bwriedir gwneud Gorchymyn pellach. Fel y cyfryw, mae'n anodd gweld pryd y bydd modd datrys y broblem hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1 i 3 uchod.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3 Mai 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 18

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)175 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Yn aml, mae landlordiaid yn gofyn i denantiaid dalu blaendal fel sicrwydd yn achos, er enghraifft, unrhyw niwed posibl i'r eiddo a achosir gan y tenant. Fodd bynnag, nid yw'r blaendal yn eiddo i'r landlord ac felly rhaid diogelu unrhyw flaendal a delir yn briodol. Rhaid i'r landlord ddiogelu pob blaendal drwy gynllun blaendal awdurdodedig.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth benodol am y cynllun blaendaliadau i denantiaid yn ysgrifenedig, gan gynnwys:

- manylion gweinyddwr y cynllun megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost;
- ble mae eu blaendal yn cael ei gadw;
- sut y caiff ei ad-dalu ar ddiwedd y contract;
- pa ddiwydiadau y gellir eu cymryd ohono yn rhesymol gan landlord i gwmpasu, er enghraifft, rent heb ei dalu neu niwed; ac
- y weithdrefn ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau a all godi rhwng y ddau barti mewn perthynas â'r blaendal.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 3(1)(b) yn cyfeirio at "unrhyw wybodaeth a gyflenwir gan weinyddwr y cynllun i'r landlord sy'n egluro'r modd y gweithredir adrannau 45 i 47(3) o'r Ddeddf ac Atodlen 5 iddi". Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd ar weinyddwyr y cynllun ddyletswydd i gyflenwi gwybodaeth o'r fath i landlordiaid yn y lle cyntaf.

Byddem yn ddiolchgar am eglurder ynghylch a fydd gan weinyddwyr y cynllun ddyletswydd o'r fath.



2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliadau 3(1)(c) a 3(1)(e) yn cyfeirio at swm mewn cysylltiad â blaendal sy'n cael "ei dalu neu ei ad-dalu" i ddeiliaid y contract. Fodd bynnag, yng nghyd-destun blaendaliadau, nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng "talu" symiau i ddeiliaid contract ac "ad-dalu" symiau i ddeiliaid contract.

A yw'n dibynnu ar bwy a dalodd y blaendal yn y lle cyntaf, h.y.

- os talwyd y blaendal gan ddeiliad y contract, caiff ei ad-dalu i ddeiliad y contract, ond
- os talwyd y blaendal gan rywun ar ran deiliad y contract, caiff y blaendal ei dalu (nid ei ad-dalu) i ddeiliad y contract?

Mae Deddf 2016 yn cyfeirio'n benodol at flaendal a delir gan ddeiliad y contract a blaendal a delir gan rywun ar ran deiliad y contract, ond nid yw'r gwahaniaeth hwnnw'n glir yn y Rheoliadau.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys darpariaeth, pan fo darparwr y Cynllun yn darparu i landlord unrhyw wybodaeth sy'n esbonio gweithrediad adrannau 45 i 47 o'r Ddeddf, ac Atodlen 5 iddi (h.y. cynlluniau blaendal), fod rhaid rhannu'r wybodaeth honno gyda deiliad y contract. Mae'r Rheoliadau, o ganlyniad, yn egluro pan fo'r landlord yn cael unrhyw wybodaeth berthnasol fod rhaid rhannu'r wybodaeth honno gyda deiliad y contract. Bydd angen i'r landlord arfer rhywfaint o ddisgresiwn o ran y bydd ond yn ofynnol iddo rannu gwybodaeth sy'n helpu i esbonio darpariaethau perthnasol y Ddeddf.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, ar hyn o bryd, i osod dyletswydd ar weinyddwyr cynlluniau i ddarparu gwybodaeth benodol, oherwydd mae landlord ond o dan rwymedigaeth i drosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir gan weinyddwr y cynllun. Bydd gweithrediad y darpariaethau hyn yn ymarferol yn parhau i gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Fel y mae'r Pwyllgor wedi nodi, mae'r Rheoliadau yn defnyddio'r geiriau "talw" ac "ad-dalu" er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Rheoliadau a'r Ddeddf (gan gynnwys Nodiadau Esboniadol y Ddeddf) yn cydnabod y gall blaendal gael ei dalu gan berson nad yw'n ddeiliad y contract. Os talwyd y blaendal gwreiddiol gan ddeiliad y contract, caiff ei *ad-dalu* iddo, a phan fo'r taliad wedi ei wneud gan berson ar ran deiliad y contract, caiff y taliad hwnnw *ei dalu* i ddeiliad y contract.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y ddarpariaeth yn aneglur neu fod angen gwahaniaethu ymhellach rhwng y sefyllfaoedd hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â gweinyddwyr y cynllun yng Nghymru i ganfod a yw'r gwahaniaeth hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn eu canllawiau.

Eitem 5.2

SL(6)178 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud darpariaeth o ran sut mae'n rhaid ymdrin ag eiddo (ac eithrio eiddo'r landlord) sy'n cael ei adael mewn annedd y cefnwyd arni. Yn gyffredinol, maent yn rhoi dyletswydd ar landlord i ddiogelu eiddo a gaiff ei adael mewn annedd y cefnwyd arni am bedair wythnos o'r diwrnod y mae'r contract wedi'i derfynu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth o ran gwaredu eiddo o'r fath gan landlord.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Rheoliadau yn nodi'r hyn sy'n gorfod digwydd i eiddo mewn annedd y mae deiliad contract wedi cefnu arni. Ym mha ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai'r Rheoliadau fod yn gymwys lle mai anifail/anifail anwes yw'r eiddo? A ddylai'r Rheoliadau wneud darpariaeth benodol ar gyfer amgylchiadau o'r fath, yn hytrach na thrin anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn yr un modd ag y trinnid mathau eraill o eiddo?

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Pan fo landlord yn arfer yr hawl i waredu eiddo yn unol â rheoliad 3(3) neu reoliad 3(4) drwy werthu'r eiddo, a all Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd teitl yr eiddo yn trosglwyddo o



berchennog gwreiddiol yr eiddo (boed yn ddeiliad y contract neu'n drydydd parti) i brynwr yr eiddo?

At hynny, pa fesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer trydydd parti sy'n colli eiddo oherwydd bod y landlord wedi gwaredu'r eiddo yn unol â'r Rheoliadau, a pha rwymedïau sydd ar gael i'r trydydd parti hwnnw?

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

O dan reoliad 5, caiff landlord ddefnyddio unrhyw enillion o waredu eiddo (h.y. gwaredu o dan reoliad 3(3) neu reoliad 3(4)) ar gyfer treuliau yr aeth y landlord iddynt wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau. At hynny, os oes unrhyw swm yn weddill, caiff y landlord ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus o dan y contract meddiannaeth.

A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried caniatáu (neu hyd yn oed ei gwneud yn ofynnol) i landlord ddefnyddio unrhyw swm sy'n weddill ar gyfer symiau eraill a all fod yn ddyledus gan ddeiliad y contract ar wahân i ôl-ddyledion rhent?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Cafodd y mater hwn ei godi yn ystod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau a'r canllawiau, ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud eithriad i'r gofyniad i ddiogelu eiddo mewn perthynas ag anifeiliaid anwes. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwnnw fel a ganlyn: "*Mae'r Rheoliadau yn amlinellu rhwymedigaethau'r landlord i ddiogelu 'eiddo'*". Yn ymarferol, os yw landlord yn credu bod anifail anwes yn dal i fod mewn eiddo a adawyd, byddai angen dod o hyd i ateb arall ar unwaith. Gallai hynny gynnwys cysylltu â pherthynas agosaf neu'r RSPCA er mwyn gweld a fyddai modd iddynt ofalu am yr anifail/anifeiliaid". O ran y Rheoliadau eu hunain, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ychwanegu'r eithriad yn rheoliad 3(4)(b) (sy'n darparu nad oes angen i'r landlord aros am y cyfnod rhagnodedig pan fyddai diogelu digonol "yn golygu costau neu anhwylystod afresymol") yn ddigonol i alluogi'r landlord i ymdrin ag unrhyw anifail anwes/anifail a adawyd yn yr eiddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu'r eglurhad hwn at y ddogfen ganllaw *Meddiannu anheddau y cefnwyd arnynt a diogelu eiddo* fel bod disgwyliadau'n glir ar y mater hwn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Yn aml gelwir landlord sy'n dod i feddu ar eiddo (a oedd gynt yn eiddo i ddeiliad y contract) sydd wedi ei adael mewn annedd y cefnwyd arni yn 'feili anwirfoddol' ["*involuntary bailee*"]. Mae Deddf Camweddau (Ymyrryd â Nwyddau) 1977 (Deddf 1977) yn galluogi'r beili i werthu'r eiddo perthnasol, ar yr amod bod amodau penodol wedi eu bodloni.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau'r landlord a deiliad y contract o ran diogelu eiddo sy'n parhau yn yr annedd ar ôl i ddeiliad y contract gefnu arni. Maent yn darparu bod rhaid cyflwyno hysbysiad a chadw at derfyn amser, a bod rhaid i'r landlord ddiogelu eiddo deiliad contract yn ystod y cyfnod hysbysu hwnnw (yn ddarostyngedig i'r eithriadau a wneir gan y Rheoliadau). Mae'r Rheoliadau'n gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol i sicrhau yr ymdrinnir â'r eiddo perthnasol yn unol â Deddf 1977.

Yn yr amgylchiadau perthnasol, mae'r teitl yn yr eiddo y cefnwyd arno yn trosglwyddo o'r perchennog gwreiddiol (pa un ai deiliad y contract neu drydydd parti ydyw) i brynwr yr eiddo yn unol ag adran 12(6) o Ddeddf 1977.

O ran y mesurau diogelu ychwanegol sydd ar waith, byddem yn tynnu sylw'r Pwyllgor at adran 220(4) o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r landlord wneud

¹ Nid yw'r gofynion yn gymwys i eiddo sy'n 'ddarfodus', neu eiddo a fyddai'n golygu 'costau neu anhwylystod afresymol' i'w ddiogelu: caiff landlordiaid waredu eiddo o'r fath 'ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw fodd' y maent yn meddwl eu bod yn briodol.

unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ei hun bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd mewn gwirionedd.

Ymhellach, o dan adran 222 o'r Ddeddf, caiff deiliad contract, hyd at chwe mis ar ôl y diwrnod y terfynwyd y contract gan y landlord, herio ailfeddiannu'r annedd gan y landlord ar sawl sail, gan gynnwys methiant y landlord i gyflwyno'r hysbysiad priodol.

Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn hefyd yn argymhell bod landlordiaid sy'n ceisio defnyddio darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn llunio rhestr eiddo gynhwysfawr, gyda thystiolaeth ffotograffig, o unrhyw eiddo y maent yn bwriadu ymdrin ag ef o dan y Rheoliadau hyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y ffaith ei bod yn debyg, ym mwyafrif yr achosion o gefnu ar annedd, mai gwerth ailwerthu cyfyngedig iawn fyddai i'r eiddo y mae angen ymdrin ag ef yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Ystyriodd Llywodraeth Cymru ddull gweithredu o'r fath, ond fe'i diystyrwyd oherwydd daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn angenrheidiol ychwanegu enghreifftiau o gostau neu dreuliau pellach at y rhai sydd wedi eu cynnwys eisoes (h.y. costau symud/storio ac ôl-ddyledion rhent). Yn ymarferol, mewn sefyllfaoedd o gefnu ar annedd, mae'n annhebygol iawn y bydd y symiau a geir o'r gwarediadau a ganiateir yn fwy na'r treuliau a ganiateir a fyddai'n debygol o fod yn ddyledus i'r landlord. O ganlyniad, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad oedd angen darpariaeth bellach.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-0037-22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

27 Ebrill 2022

Annwyl Huw,

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022 ar 19 Mai 2022. Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol bach i gyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir mewn perthynas â lles anifeiliaid wrth eu cludo a rheolaethau swyddogol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r Rheoliadau'n cynnwys trosglwyddiadau o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig; a
- Rheoliad (yr UE) 2017/625 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, yn ogystal â rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y diwygiadau eu crynhoi isod:

- **Rôl a diffiniad yr Awdurdod Cymwys:** Gofyniad gorfodol er mwyn i'r awdurdod cymwys adennill costau unrhyw gam(au) gorfodi y mae'n ei gymryd/eu cymryd mewn perthynas â swyddogaethau rheoli swyddogol. Mae'r pŵer i adennill costau wedi newid i gam gweithredu yn ôl disgrisiwn. Felly, nid oes rhaid cymryd cam gweithredu bob amser. Mae hyn yn galluogi sefyllfaoedd ble y byddai'r broses o adennill costau yn anymarferol, aneconomaidd, neu nad yw er budd y cyhoedd fel arall. Gwnaed mân newidiadau drafftio eraill.
- **Dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE a systemau cofnodi:** Mae cyfeiriadau at "aelod-wladwriaethau" yr UE wedi cael eu disodli gan "Prydain Fawr". Mae gofyniad i awdurdod cymwys yn y DU ddarparu manylion am deithiau hir y mae'n bwriadu eu cymryd drwy system cyfnewid gwybodaeth yr UE wedi'i ddileu. Mae cyfeiriadau at system o bwyntiau cyswllt cenedlaethol a chynllun cymorth ar y cyd a ddefnyddir gan aelod-wladwriaethau'r UE wedi'u dileu. Mae gofyniad i ddarparu adroddiad blynyddol ar arolygiadau a gynhelir o dan y rheoliadau hyn, i Gomisiwn yr UE, wedi'i ddileu.
- **Cosbau:** Mae gofyniad i osod rheolau ar gosbau am dorri rheolau erbyn 5 Gorffennaf 2006, wedi'i ddileu. Nid oes angen gwneud hyn mwyach, gan fod rheolau ar gosbau ac achosion o dorri'r rheoliadau hyn wedi'u gosod erbyn y dyddiad cau hwnnw ac mewn grym ar hyn o bryd.
- **Diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio:** Mae cyfeiriadau at reoliadau eraill yng nghyd-destun hyfforddiant ar gyfer staff awdurdod cymwys, deddfwriaeth filfeddygol arall, ac archwiliadau lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a fydd yn cael eu lladd, wedi'u diweddarau i gyfeirio at y deddfwriaeth gyfredol sy'n briodol ar gyfer y pynciau hynny.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru mewn materion sydd o gymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol mae manteision i gyd-weithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Rwyf yn rhoi caniatâd i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlynid y llyfr statud. Ystyriwyd y gwelliannau'n llawn ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi. Mae ein safbwynt ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Meterion Gweledig.

Cofion,



Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Ein cyf/Our ref: MA-LG-0037-22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

27 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022 ar 19 Mai 2022. Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol bach i gyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir mewn perthynas â lles anifeiliaid wrth eu cludo a rheolaethau swyddogol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r Rheoliadau'n cynnwys trosglwyddiadau o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig; a
- Rheoliad (yr UE) 2017/625 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, yn ogystal â rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 28
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y diwygiadau eu crynhoi isod:

- **Rôl a diffiniad yr Awdurdod Cymwys:** Gofyniad gorfodol er mwyn i'r awdurdod cymwys adennill costau unrhyw gam(au) gorfodi y mae'n ei gymryd/eu cymryd mewn perthynas â swyddogaethau rheoli swyddogol. Mae'r pŵer i adennill costau wedi newid i gam gweithredu yn ôl disgrisiwn. Felly, nid oes rhaid cymryd cam gweithredu bob amser. Mae hyn yn galluogi sefyllfaoedd ble y byddai'r broses o adennill costau yn anymarferol, aneconomaidd, neu nad yw er budd y cyhoedd fel arall. Gwnaed mân newidiadau drafftio eraill.
- **Dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE a systemau cofnodi:** Mae cyfeiriadau at "aelod-wladwriaethau" yr UE wedi cael eu disodli gan "Prydain Fawr". Mae gofyniad i awdurdod cymwys yn y DU ddarparu manylion am deithiau hir y mae'n bwriadu eu cymryd drwy system cyfnewid gwybodaeth yr UE wedi'i ddileu. Mae cyfeiriadau at system o bwyntiau cyswllt cenedlaethol a chynllun cymorth ar y cyd a ddefnyddir gan aelod-wladwriaethau'r UE wedi'u dileu. Mae gofyniad i ddarparu adroddiad blynyddol ar arolygiadau a gynhelir o dan y rheoliadau hyn, i Gomisiwn yr UE, wedi'i ddileu.
- **Cosbau:** Mae gofyniad i osod rheolau ar gosbau am dorri rheolau erbyn 5 Gorffennaf 2006, wedi'i ddileu. Nid oes angen gwneud hyn mwyach, gan fod rheolau ar gosbau ac achosion o dorri'r rheoliadau hyn wedi'u gosod erbyn y dyddiad cau hwnnw ac mewn grym ar hyn o bryd.
- **Diweddarau cyfeiriadau at deddfwriaeth sydd wedi dyddio:** Mae cyfeiriadau at reoliadau eraill yng nghyd-destun hyfforddiant ar gyfer staff awdurdod cymwys, deddfwriaeth filfeddygol arall, ac archwiliadau lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a fydd yn cael eu lladd, wedi'u diweddarau i gyfeirio at y deddfwriaeth gyfredol sy'n briodol ar gyfer y pynciau hynny.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru mewn materion sydd o gymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol mae manteision i gyd-weithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Rwyf yn rhoi caniatâd i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlynid y llyfr statud. Ystyriwyd y gwelliannau'n llawn ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi. Mae ein safbwynt ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,



Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/0237/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

27 Ebrill 2022

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy nghydsyniad yn cael ei roi i Offeryn Statudol gael ei wneud gan Lywodraeth y DU sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoleiddio Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (o hyn ymlaen 'y Rheoliadau') yn diwygio Rheoliad (EU) 1308/2013 i newid effaith y diwygiadau a wnaed gan Reoliad (EU) 2020/2220, i'r graddau y maent yn ymwneud ag Erthygl 55 ar raglenni gwenynyddiaeth ac Erthygl 167a ar reolau marchnata olew olewydd. Gan na wnaed unrhyw newidiadau ymarferol yn ystod y cyfnod pan oedd Rheoliad (EU) 2020/2220 yn gymwys yng Nghymru, ni fydd yn ofynnol monitro'r modd y caiff yr OS hwn ei gyflawni.

Rwyf yn cytuno, yn yr achos hwn, i roi cydsyniad i Victoria Prentis, y Gweinidog dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, wneud darpariaeth i unioni methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol yng Nghymru. Mae hyn drwy'r pwerau a roddir yn adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer REUL 1308/2013 mewn perthynas â Chymru, ond gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r cyfnod yr wyf yn rhoi cydsyniad ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i hynt y Rheoliadau. Nid yw'r rheoliadau hyn yn cael effaith ymarferol dros gyfnod o amser, dim ond sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gallu gweithredu yng Nghymru y maent yn ei wneud. Felly, nid oes angen mecanwaith adolygu ac ni fydd hyn yn effeithio ar drefniadau cyfansoddiadol tymor hwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 30
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn rhag-weld mai'r Rheoliadau yw'r olaf o'r Offerynnau Statudol cywirol sy'n ymwneud â Chyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol. Eu rhesymeg polisi, felly, yw cynnal y gallu i weithredu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yng Nghymru. Mae'r OS hwn yn gymwys i Gymru o ran rhaglenni gwenynyddiaeth a rheolau marchnata olew olewydd oherwydd effaith fach y ddwy agwedd hyn ar y ddeddfwriaeth, a hwylustod gweithio ar sail y DU gyfan i gywiro deddfwriaeth yr UE a ddargedwir na ellir ei gweithredu.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu yn ystod hynt y Rheoliadau, gan fod Gweinidogion Cymru yn cadw'r opsiwn o'u diwygio yn y dyfodol ar sail Cymru'n unig.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod ac yn mireinio'r Rheoliadau dros gyfnod o wythnosau gyda swyddogion cyfatebol yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon (DAERA). Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod y meysydd lle mae'r Rheoliadau'n gymwys i Gymru fel rhai sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, drwy gydol eu datblygiad.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Ein cyf/Our ref: MA/RE/0044/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost: SeneddLJC@senedd.wales

03 Mai 2022

Annwyl Huw,

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.

Trosolwg Polisi o'r OS

Mae angen yr OS uchod er mwyn diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) i weithredu, mewn deddfwriaeth ddomestig, rwymedigaethau caffael y Deyrnas Unedig (DU) a gwmpesir gan y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (Cytundeb EFTA).

Y Gyfraith a gaiff ei diwygio:

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016

y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'y Rheoliadau Caffael Domestig'

Diben y diwygiadau

Roedd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS Ymadael â'r UE) a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn cadw rhwymedigaethau caffael y DU a gynhwysir mewn cytundebau rhyngwladol presennol, am 12 mis o ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gosodwyd Cytundeb EFTA gerbron Senedd y DU ar 16 Gorffennaf 2021, a daeth y cyfnod craffu i ben ar 26 Hydref 2021. O'r herwydd, mae angen gweithredu'r rhwymedigaethau caffael a gwmpesir gan Gytundeb EFTA yn y Rheoliadau Caffael Domestig.

O ran Cymru, bydd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn sicrhau bod y rhwymedigaethau caffael rhyngwladol o dan Gytundeb EFTA yn cael eu gweithredu'n briodol o fewn y Rheoliadau Caffael Domestig gan ganiatáu yn sgil hynny i awdurdodau ledled Cymru gydymffurfio â nhw hefyd.

Pam rhoddwyd cydsyniad

Mae adran 2 o Ddeddf Masnach 2021, y dibynnir arni ar gyfer yr OS presennol, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a geir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, ni argymhellir arfer y pwerau hyn yn yr achos hwn am y rhesymau a nodir isod.

Ein polisi fel arfer yw, lle mae pwerau'n gorwedd gyda Gweinidogion Cymru, mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, diben yr OS yw gwneud diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau caffael rhyngwladol yn cael eu gweithredu'n llawn ledled y DU. Felly, y tro hwn, credaf ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU deddfu yn y maes datganoledig hwn. Mae deddfu'n gyflym hefyd yn bwysig er mwyn lliniaru'r risg y bydd bwlch yn y Rheoliadau Caffael Domestig o ran cydymffurfio â'n rhwymedigaethau rhyngwladol; os bydd Rheoliadau Caffael Domestig yn parhau heb eu halinio â rhwymedigaethau rhyngwladol, yna bydd perygl y gallai trydedd wlad herio'r DU trwy gyfraith.

Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac nid yw sylwedd y diwygiadau, yn fy marn i, yn ddadleuol. At hynny, er bod y Rheoliadau Caffael Domestig sy'n cael eu diwygio yn ymestyn i Gymru, nid oes deddfwriaeth gyfatebol wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn. Mae diweddarau'r Rheoliadau Caffael Domestig yn unol â Lloegr ac mewn un darn o ddeddfwriaeth yn rhesymegol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa gyson bresennol yn cael ei chynnal.

Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nac ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

O'r herwydd, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru, y mae Llywodraeth y DU wedi gofyn amdano yn unol ag ymrwymadau anstatudol Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r pwerau yn Neddf Masnach 2021 yn cael eu defnyddio fel arfer i deddfu mewn maes â chymhwysedd datganoledig heb gydsyniad y llywodraethau datganoledig perthnasol, a byth heb ymgynghori â hwy yn gyntaf. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn: [Eich cyf \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales).

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 25 Ebrill 2022.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies AS.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive style.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.

DYDDIAD 27 Ebrill 2022

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Bydd aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cytundeb gan Jacob Rees-Mogg AS, Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(1) a (2), 4(1)(c) a (d), a 5(1) o Ddeddf Masnach 2021.

Mae'r OS yn diwygio;

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016

Er mwyn gweithredu, mewn deddfwriaeth ddomestig, rwymedigaeth caffael y Deyrnas Unedig a gwmpesir gan y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (Cytundeb EFTA).

Gellir gweld yr Offeryn Statudol yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2022/9780348234534>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

4 Mai 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch 25 Ebrill 2022. Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Amodau Ffytioiechydol (Diwygio) 2022 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yn: [ws-ld15105-w.pdf](#) ([senedd.cymru](#))

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban.

